# PAPURAU BUSNES

# 17 Mai 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau i’w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 10 Mai 2000

**Pwnc ar gyfer Dadl Fer**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Llygredd mewn Llywodraeth Leol

**NDM293**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd Grp Hyder a’r gwasanaethau dr a thrydan rheoledig i economi, amgylchedd ac isadeiledd Cymru; mae’n croesawu ac yn cymeradwyo’r ffaith bod y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd yr Amgylchedd wedi cwrdd â’r rhai a allai gynnig prynu Hyder a cheisio cael sicrwydd ganddynt ynghylch diogelu cyfanrwydd y Grp, y rhai a gyflogir ganddo, a’r amgylchedd yng Nghymru, a diogelu buddiannau defnyddwyr yng Nghymru; ac mae’n nodi gweithredoedd arfaethedig rheoleiddwyr y diwydiant dr a thrydan, sy’n ceisio sicrhau ymrwymiadau a gwelliannau i drwyddedi er mwyn diogelu buddiannau cwsmeriaid a sicrhau bod rhaglenni buddsoddi’r gwasanaethau rheoledig yn parhau i gael eu darparu.

**NDM294**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad, gan weithredu o dan Adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad holl swyddogaethau’r Cynulliad yn ôl neu o dan Reoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2000 OS 2000/906 a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant (gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2000) ac o dan yr Offerynnau Dynodiad a wnaed gan y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2000).

**NDM295**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol ag adran 94(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi Owen, Thomas and Co. i archwilio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gosodwyd copi o'r llythyr yn gwahodd tendrau, a'r Fanyleb ac Amodau'r Contract ar gyfer y Gwasanaethau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2000.

**NDM296**

**Elin Jones (Ceredigion);**

Mae'r Cynulliad yn penderfynu cyfarwyddo Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio i gyflwyno Gorchymyn drafft dan adran 59 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yr amcanion i'w cyflawni gan y Gorchymyn hwn yw:

- Galluogi arallgyfeirio economaidd ar gyfer adeiladau amaethyddol sydd wedi cael eu defnyddio i ddibenion amaethyddol ers 5 mlynedd neu fwy trwy ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995.
- Rhoi hawliau datblygiadau a ganiateir ar dir amaethyddol sy'n cynnwys uned amaethyddol o 5 hectar o leiaf er mwyn i adeiladau amaethyddol cyfredol ar y tir allu cael eu defnyddio trwy i) cymhwyso'r defnydd a ddaw dan Ddosbarth B1 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a ii) caniatáu addasiadau ac estyniadau cyfyngedig i'r adeiladau hynny yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd o'r fath.

Bydd y Gorchymyn yn gymwys i Gymru gyfan.

**NDM278**